# Adroddiad Cau – Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg

# Adroddiad ar ran Canolfan Y Lle, Llanelli

# 31 Awst 2016

Os oes unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'r


Y Tîm Polisi a Phartneriaeth

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

IaithGymraeg@sirgar.gov.uk

01267 224914

## 1. Cynnwys yr adroddiad

Gofynnwn i chi gyflwyno adroddiad ***dim mwy na 4,000 o eiriau*** gan ddefnyddio'r penawdau isod:

### (i) Nod ac Amcanion y Prosiect

*Crynodeb o'r prosiect*

Mae C13 Cyf yn fenter gymdeithasol a sefydlwyd yn ardal Llanelli. Ei nod yw hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a'i datblygiad, o fewn tref Llanelli, drwy sefydlu adeilad pwrpasol i hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol.

Bwriad C13 Cyf oedd gwneud hyn trwy gaffael ar adeilad a'i ddatblygu a'i addasu i greu Lolfa Gymunedol a Chanolbwynt Iaith Gymraeg gynaliadwy o'r enw Y Lle yng nghanol tref Llanelli.
Mae C13 Cyf am ddarparu gwasanaethau eang ar gyfer y gymuned, gan gynnwys plant, pobl ifanc, teuluoedd a'r henoed. Mae'r prosiect hefyd yn gweithredu fel adnodd ychwanegol i gymunedau Llanelli, mewn ward etholiadol sydd heb ganolfan gymunedol.

Mae'r Ganolfan yn gartref i nifer o wasanaethau, gan gynnwys swyddfeydd, ystafelloedd ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd, clybiau ieuenctid ayb a stiwdio ymarfer/recordio i fandiau ifainc. Bydd pob elfen yn cyfrannu at allbynnau iaith penodol ond byddant hefyd yn cyfrannu incwm er mwyn galluogi'r prosiect i fod yn gynaliadwy a sicrhau na fydd angen dibynnu ar grantiau.

Gweledigaeth C13 Cyf oedd datblygu dull newydd o hyrwyddo'r iaith trwy ganolfan hygyrch a chroesawgar. Mae'r Ganolfan yn creu cyfleuster o fewn tref Llanelli sy'n ysgogi pobl i ymgysylltu â'r Gymraeg yn rheolaidd, yn ogystal â chaffael gwybodaeth berthnasol yn ôl y galw.
Amlygwyd yr angen am Ganolfan yn dilyn ymweliad Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr â'r dref ac mae'n gam pendant tuag at sicrhau gwaddol ieithyddol yr Eisteddfod.

**Dymuna Cyngor Sir Gâr a C13 Cyf ddiolch yn ddiffuant iawn i Lywodraeth Cymru; nid yn unig am y gefnogaeth ariannol o £110,500 o'r Gronfa Buddsoddiad Cyfalaf 2014-15: Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg, ond am gefnogaeth a chyngor y swyddogion drwy ystod y broses o sefydlu a hyrwyddo'r Ganolfan. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio at y dyfodol.**

### (ii) Sut mae'r nod a'r amcanion hyn yn cyfrannu at feysydd strategol *Iaith fyw: iaith byw* a *Bwrw Mlaen*:

Isod, ceir manylion y nodau, canlyniadau a'r dangosyddion a geir o dan bob maes strategol yn Strategaeth y Gymraeg.

Rydym wedi ychwanegu colofnau er mwyn cynnig gwybodaeth bellach o ran Canolfan Y Lle.

| Maes Strategol | Nod | Canlyniad a ddymunir | Dangosydd | Diweddariad | Tystiolaeth | Prif ganfyddiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teuluoedd** | Annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd. | Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel y brif iaith gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn o'r teulu sydd mewn cyswllt agos â nhw. | Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg gartref. (Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar lefel disgybl, Arolwg Blynyddol y boblogaeth). | Cynhaliwyd sesiynau Cymorth Gwaith Cartref i rieni plant cynradd (Chwefror – Mai 2016) gan ddefnyddio offer cyfrifiadurol a'r argraffydd a gafwyd drwy'r grant. Cefnogwyd 16 o rieni drwy'r cynllun. Bydd hyn yn ail-ddechrau ym mis Medi 2016. | • Lluniau<br>• Astudiaethau achos<br>• Y gwaith a baratowyd gan ddefnyddio'r offer | • Mae angen gwirioneddol ar gyfer cynorthwyo rhieni di-Gymraeg gyda gwaith cartref cyfrwng Cymraeg. Mae angen neilltuo cryn adnoddau er mwyn gwireddu hyn. Daethpwyd ar draws heriau o ran argaeledd cyfrifiaduron mewn cartrefi, sy'n atgyfnerthu tystiolaeth o ran tlodi yn yr ardal ac yn creu rhwystrau o'r newydd i deuluoedd.<br>• Amlygwyd potensial o ran cynnal prosiect adolygu gyda disgyblion uwchradd yn ogystal. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc** | Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith. | Plant a phobl ifanc yn defnyddio mwy o'r Gymraeg. | Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru. (Ffynhonnell: Presenoldeb mewn gweithdai, presenoldeb mewn gweithgareddau.) | Cynhaliwyd clwb ieuenctid wythnosol i flynyddoedd 7 i 9 ers sefydlu'r Ganolfan. Mae 64 o aelodau gyda 25-30 yn mynychu'n rheolaidd.<br>O fis Medi ymlaen, byddwn yn cyflwyno noson ychwanegol ar gyfer disgyblion 6 a 7 cyfredol, fel rhan o gynllun pontio. | • Lluniau<br>• Amserlenni staff<br>• Cytundeb gyda'r Urdd (cyfnod o 10 wythnos y tymor) | • Mae'r ffaith bod angen cyflwyno'r ail noson yn tanlinellu'r ffaith fod yna alw am ddarpariaeth ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn y dref.<br>• Mae angen gwahaniaethu a theilwra yn unol â'r grwpiau oedran. |
| | | | | Cynhaliwyd gweithdai roc wythnosol, ers sefydlu'r Ganolfan. Mae 26 o aelodau yn mynychu'n rheolaidd. O ganlyniad i hyn, | • Lluniau<br>• Fideo Pethau Bychain a baratowyd gan Lywodraeth Cymru | • Prosiect buddiol o ran bwydo'r sin cyfrwng Cymraeg ond mae angen parhau i wella'r cyfleoedd i berfformio yn y Gymraeg.<br>• Sefydlwyd sawl partneriaeth lwyddiannus, gyda lleoliadau / busnesau newydd yn dod at y Ganolfan yn gofyn am gymorth wrth drefnu darpariaeth Cymraeg. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mae gwersi cerddoriaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i bobl ifanc yr ardal drwy fusnes lleol. Canlyniad arall yw bod 4 band lleol wedi'u sefydlu gan bobl ifanc.<br><br>Cynhaliwyd 20 taith hwyl ar gyfer pobl ifanc e.e. ymweld â'r Laser Station yng Nghaerfyrddin, gwersylla ym Mharc Pen-bre a Bowlio Deg yng Nghaerfyrddin.<br><br>Cynhaliwyd gweithdai radio wythnosol er mwyn annog pobl ifanc i wella eu sgiliau Iaith a | • Lluniau<br>• Ffurflenni caniatâd a chofrestrau | • Gwelwyd aelodau newydd yn sgil cynnal teithiau.<br>• Mae'n haws rheoli defnydd Iaith ar fws, a gellir ymyrryd petai angen.<br>• Nid yw radio yn gyfrwng naturiol i bobl ifanc felly mae angen meithrin diddordeb yn y cyfrwng radio neu cyfuno'r elfennau hyn gyda gwaith fideo ac ati.<br>• Mae potensial i newid un o'r ystafelloedd radio i ystafell cyfryngau er mwyn meithrin diddordeb aml-gyfrwng. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hyder o ran recordio deunydd. Ein bwriad at y dyfodol yw gweithio gyda Cymru FM, Radio Beca a Radio D er mwyn darlledu'r deunydd.<br><br>Mae'r Ganolfan wedi cofrestru fel rhan o gynllun Credydau Amser Spice, ac mae 8 o wirfoddolwyr sy'n ein cefnogi yn cael eu gwobrwyo drwy'r cynllun.<br><br>Mae'r Ganolfan wedi cynnig lleoliad gwaith i 6 unigolyn fel rhan o'u cwrs Gwaith Ieuenctid a Chymuned. Mae 3 bellach wedi | • Cynnyrch y gweithdai<br>• Lluniau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | graddio o Brifysgol y Drindod Dewi Sant (2 gradd Dosbarth Cyntaf ac 1 2:1) ac wedi llwyddo i gael swydd.<br><br>Ynghyd â hyn, daeth 6 o ddisgyblion o chweched dosbarth Ysgol y Strade i gynorthwyo fel gwirfoddolwyr. Mae'r disgyblion hynny wedi ein cynorthwyo ers sefydlu'r Ganolfan ac yn parhau i wneud.<br><br>Cynhaliwyd rownd derfynol 'Brwydr y Bandiau' yn y Ganolfan. | • Astudiaethau achos<br>• Amserlenni<br>• Lluniau o'r gweithgaredd au | • Mae potensial o ran cynnal cystadleuaeth yn lleol er mwyn annog amrywiaeth o fandiau i gymryd rhan. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cynhaliwyd 3 gweithdy bit-bocsio a rapio gyda Ed Holden. Bu Ed yn rhan o weithdai gyda Ysgol y Strade a Choleg Sir Gâr yn ogystal. O ganlyniad i'r gweithdy, bu dau fand cyfrwng Cymraeg yn rhan o sesiynau Gŵyl Ddewi yn yr Ysgol a'r Coleg. | • Lluniau | • Mae gweithdai Ed Holden yn ffordd arbennig o gyrraedd Plant a Phobl Ifanc |
| **Cymunedau** | Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned. | Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru. | Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn | Ffurfiwyd perthynas lwyddiannus gyda Cymraeg i Oedolion yn yr ardal, a cynhaliwyd 6 o | • Cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymraeg i Oedolion | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | grantiau gan Lywodraeth Cymru. (Ffynhonnell: Nifer o weithgareddau a drefnir yn y gymuned, nifer o bobl sy'n mynychu gweithgareddau.) | ddosbarthiadau yn y Ganolfan. Roeddent yn cyfarfod yn wythnosol.<br><br>Mae 'Côr Lleisiau' yn ymarfer yn y Ganolfan bob dydd Sul, a hynny ers sefydlu'r Ganolfan. Mae hyfforddwr y Côr wedi dysgu'r Gymraeg i lefel rhuglder mewn cyfnod o 3 mis ac erbyn hyn yn un o'r tiwtoriaid cerdd cyfrwng Cymraeg (fel nodwyd uchod). Cyn i'r Côr ddechrau ymarfer yn y Ganolfan, nid oeddent yn perfformio caneuon Cymraeg, ond | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | erbyn hyn maent yn hyfforddi ac yn cyflwyno caneuon Cymraeg fel rhan o'u rhaglen.<br><br>Rydym yn gobeithio y bydd Côr lleol arall yn ymuno â ni o fis Medi 2016 ymlaen.<br><br>Mae'r Ganolfan wedi cynnal gig cyfrwng Cymraeg mewn 5 lleoliad yn nhref Llanelli er mwyn sicrhau bod bandiau cyfrwng Cymraeg yn perfformio mewn lleoliadau sy'n tueddu cynnal nosweithiau 'Seisnig'. Rydym yn anelu at gynnal gigs | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | acwstig misol o fis Medi 2016 ymlaen. Bydd hyn yn gyfle i roi llwyfan i'r bandiau rydym eisoes yn gweithio â hwy.<br><br>Rydym wedi cynnal nosweithiau 'Gemau Bwrdd' a noson Gomedi mewn partneriaeth â Menter Cwm Gwendraeth-Elli.<br><br>Cynhaliwyd sesiynau Ioga misol gyda Laura Karadog.<br><br>Rydym wedi cynnal arbrawf o ran gwesteio partïon plant oed cynradd ac wedi | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | dod i'r casgliad y byddwn yn cynnal nosweithiau penodol ar gyfer plant oed cynradd.<br><br>Crëwyd fideo i ddathlu diwrnod 'Shwmae, Sutmae' ar 15 Hydref 2015.<br><br>Cynhaliwyd gweithdy fideo ar gyfer Dydd Miwsig Cymru ar 12 Chwefror 2016. | | |

**Hun**

## Hunan-asesiad o effeithiolrwydd a dylanwad y prosiect

### Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen rydym wedi cael mwy o geisiadau i ddod a'r Gymraeg i mewn i weithgareddau cymdeithasol cyffredinol. Er nad ydyw wedi bod yn bosib cynorthwyo pawb rydym wedi llwyddo i ddod a'r Gymraeg i mewn i weithgareddau lle nad ydy'r Gymraeg wedi bod o'r blaen. Mae hyn yn cynnwys partneriaethau gyda Cyngor Tref Llanelli, Cymdeithas LBGT Llanelli, Spice Cymru, Academi pêl droed Afia Benjal – Y Gambia (pencadlys yn Llanelli). Oherwydd ein bod yn rhan o'r gymuned leol rydym wedi cael ceisiadau i gyfieithu posteri, cyflwyno yn Gymraeg a gosod bandiau Cymraeg fel rhan o rhaglenni a fyddai wedi digwydd yn Saesneg. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn targedu Cymdeithas Parc Howard a'i Gwŷl i'r teulu a Gŵyl 'Vintage' Llanelli. Trwy gynnig rhywbeth o safon (offer, bandiau a gwasanaeth am ddim) rydym yn cael ein gweld fel partner defnyddiol ac felly mae'n haws i wthio'r Gymraeg.

O rhan y clwb ieuenctid mae hyn wedi bod yn lwyddiant ysgubol. Ers cyd ysgrifennu'r cais gyda'r Urdd mae C13 Cyf wedi llwyddo i greu gwasanaeth o ddim. Ers cael un unigolyn yn yr wythnos cyntaf rydym bellach yn cael niferoedd uchel gydag ail noson yn cael ei drefnu ym mis Medi. Er ein bod wedi derbyn sylwadau megis 'Beth yw'r pwynt – bydd neb yn troi lan' rydym wedi llwyddo i dargedu cynulleidfa darged gymharol heriol a chreu cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan yr ysgol gan adeiladu perthynas gyda'r bobl ifanc. Y nod fydd i adeiladu ar hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf gan edrych i greu dilyniant ar sail berchnogaeth yn debyg i model y ffermwyr ifanc. Er bod yr Urdd yn talu am 10 wythnos y tymor, mae'r staff a'r gwirfoddolwyr wedi cadw'r clwb ar agor bob wythnos ac hefyd yn ystod y gwyliau. Mae hyn wedi gwneud gryn argraff ar rhieni a'r bobl ifanc.

Ysgol Roc – Rydym wedi cynnal sesiynau wythnosol o'r Ysgol Roc ac mae hyn wedi arwain at nifer o'r plant yn mynd i gael gwersi offerynnol gyda Siop gerddoriaeth Cadno Music. O rhan canlyniadau mae'r siop bellach yn darparu gwersi gitâr, drymiau, bas, piano a llais drwy gyfrwng y Gymraeg. Canlyniad arall yw bod y tiwtor piano Piet Zorn (o'r Almaen) wedi dysgu Cymraeg drwy ddod i gyswllt gyda Y Lle. Gwnaeth gyfrannu ar can Pethau Bychain ac mae'n frwd iawn dros hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n arwain Côr Lleisiau / Voices sydd yn cwrdd yn wythnosol yn y Lle ac maent bellach wedi gosod caneuon Cymraeg fel rhan o'i set ac wedi perfformio yn Aberdewi a nifer o wyliau eraill.

Prosiect Radio – Mae hyn wedi bod yn anodd i'w sefydlu yn iawn am ei fod yn gorfod cael ei wneud gyda grwpiau llai o bobl. Serch hynny rydym wedi trafod gyda'r bobl ifanc ac yn edrych i adnewyddu rhan o'r adeilad fel Stiwdio Aml gyfryngol felly bydd sesiynau radio/golygu fideo a chreu deunydd yn gallu digwydd ar yr un pryd. Bydd hyn yn digwydd yn ystod mis Medi 2016.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi croesawu Cymraeg i Oedolion i'r Lle ar gyfer gwersi ond rydym yn teimlo bod hyn wedi ein rhwystro i wneud y defnydd gorau o flaenoriaethu yr hyn yr ydym am ei wneud a'r gwir bwrpas dros sefydlu'r prosiect, am fod angen ail osod ystafelloedd a chreu sefyllfa addas i ddysgu. Ein nod ym Medi 2016 yw ail edrych ar ein blaenoriaethau gwreiddiol. Byddwn yn cynnal nosweithiau anffurfiol acwstig ar gyfer datblygu bandiau ac unigolion a rhoi cyfle i ddysgwyr i ymarfer eu Cymraeg. Er bod tipyn o incwm wedi dod o'r ffynhonnell yma, mae angen i ni fod yn driw i'r hyn yr ydym yn ei gredu.

Y wers fwyaf yr ydym wedi dysgu yw i beidio a cheisio bod yn bopeth i bawb. Bellach mae ein pobl ifanc wedi perchnogi'r adeilad ac felly mae'r prosiect wedi troi'n fwy o brosiect datblygu'r Gymraeg o fewn yr oedran yma, felly yn hytrach na mynd ar ôl incwm drwy logi ystafelloedd rydym wedi aros yn driw i adeiladu ar y gwaith yma ac fe fyddwn yn targedu blynyddoedd 6 yr ysgolion cynradd gyda cynllun pontio yn ystod Medi 2016.

Erbyn diwedd 2016 rydym yn gobeithio sefydlu caffi ar gyfer pobl ifanc – fe fydd hyn yn her ond mae'n rhywbeth sydd angen ar yr ardal.

Trwy fod yng nghanol y gymuned a thrwy fod yn bwynt cyswllt naturiol yn y dref rydym wedi llwyddo i godi proffil y Gymraeg nid drwy'r ganolfan ei hunan ond trwy weithredoedd y gwirfoddolwyr. Ein bwriad yw i esblygi'r ganolfan yn ystod y blynyddoedd nesaf i ddarparu mwy o wasanaethau gyda'r ffocws ar ddatblygu iaith yn y dref.

**Gwersi a ddysgwyd wrth gynnal y prosiect**

**Sut mae'r canlyniadau wedi eu defnyddio i lywio eich prosiect?**

Byddwn yn dychwelyd i ffocysu ar anghenion ieithyddol Llanelli a darparu ar gyfer y gymuned. Angen dilyn anghenion yn lle ceisio plesio pawb a bod yn leoliad sefydliadol, ystafelloedd cyfarfod, cyrsiau ayb. Angen bod yn fwy amgen. Mae'n allweddol i gynnal brwdfrydedd drwy herio a newid agweddau – nid jyst lle ar gyfer creu incwm. Ein USP ni yw i ni ddim yn gaeth i dargedau na sefydliadau felly angen bod yn fwy dewr a dilyn trywydd naturiol. Lle mae yna gyfle mae angen i ni fynd amdani, a dod o hyd i ddulliau sydd yn ein galluogi i gael y sgwrs ieithyddol gyda phobl sydd angen clywed y sgwrs. Efallai ein bod ni wedi bod yn rhy PC ac angen cael hyder yn beth i ni'n gweld sydd angen ei wneud.

- a oedd heriau neu rwystrau y bu'n rhaid eu hwynebu, a sut aethpwyd ati i'w goresgyn?

Ffactorau allanol – asiantaethau yn gweld y Lle fel bygythiad i'r hyn maent yn ei wneud. Llanelli yn dalcen caled yn hanesyddol ond dyw hyn ddim yn rheswm i'w anwybyddu. Mae yna botensial aruthrol i greu siaradwyr Cymraeg o'r newydd felly angen bod yn rhagweithiol a targedu yn fwy effeithiol. Camau bach grymus ar y tro yn hytrach na gwneud popeth!

beth, os unrhyw beth, y byddech yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

Efallai gofyn am fwy o arian ar gyfer adnewyddu'r holl adeilad, a fyddai wedi cyflymu'r broses ... ond byddai hyn wedi tynnu oddi ar ein gweledigaeth o dyfu'r peth a defnyddio cyllid preifat/personol gan mai hwn sydd yn rhoi ei statws amgen i'r Lle ac yn dileu unrhyw ddadleuon. Mae'n haws cefnogi cynlluniau'r Cyngor/Llywodraeth gan nad oes disgwyl i ni wneud hynny oherwydd grant blynyddol. Mae ein penderfyniad i'w cefnogi yn un wirfoddol ac mae'r ffaith mae gwirfoddolwyr o'r Lle oedd mwyafrif y panel oedd yn cefnogi'r newidiadau i Ysgol Llangennech yn ddiweddar yn dangos ein bod ni'n fwy grymus am ein bod ni'n wirfoddolwyr sydd yn poeni am sefyllfa'r Gymraeg. Byddai'n dda gweld

asiantaethau sydd yn derbyn grant y Cyngor yn eu cefnogi drwy'r cyfnod lletchwith yma o drafodaethau ac hefyd yn cefnogi'r ysgol i ddod a newidiadau bydd YN creu newid ieithyddol yn y Sir!